# Dysgu gwersi o ymateb y gymuned i COVID-19 yng Nghymru
# Learning lessons from the community response to COVID-19 in Wales



**Charlotte Grey, Lucia Homolova, Alisha Davies**

Is-adran Ymchwila Gwerthuso / R&E Division

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES

WcVA CGGC

University of BRISTOL

The Health Foundation

# Ymateb dan arweiniad y gymuned i'r Pandemig / Community-led response to the pandemic

- Ochr yn ochr â'r pandemig a'i gamau rheoli, cafwyd camau gweithredu dan arweiniad y gymuned gan wirfoddolwyr newydd i gefnogi pobl a oedd yn agored i niwed.
- Mae cofnodi'r hyn a ddysgir o'r cynnydd sylweddol mewn camau gweithredu dan arweiniad y gymuned yn ystod y pandemig COVID-19, yn hollbwysig er mwyn paratoi unigolion a chymunedau'n well i ymateb ac addasu'n gadarnhaol i ddigwyddiadau digynsail byd-eang yn y dyfodol.

- The pandemic and its control measures, were accompanied by emergent community-led action to support the vulnerable.
- Capturing the learning from the upsurge in community-led action during the COVID-19 pandemic, is of key importance to better equip individuals and communities to respond and positively adapt to future globally unprecedented events.

# Methodoleg / Methodology

- Arolwg meintiol ledled Cymru ar gyfranogi mewn gweithgareddau gwirfoddol cymunedol, a’r galluogwyr a’r rhwystrau
- Cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig ar gamau gweithredu dan arweiniad y gymuned a’u cynaliadwyedd ar ôl y pandemig ymhlith rhanddeiliaid gwahanol ar draws y system

- A quantitative survey across Wales on participation in community voluntary activities, and enablers and barriers.
- Qualitative semi-structured interviews on community-led action and sustainability post pandemic amongst different stakeholders across the system

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Negeseuon Allweddol / Key messages

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Roedd nodweddion y gwirfoddolwyr yn ystod y pandemig a gymerodd ran yn yr arolwg yn cynnwys y canlynol: roedd dros dri chwarter yn fenywod, dros eu hanner yn 45-64 oed, dros 60% wedi'u haddysgu i lefel gradd, o'r tri chwintel â'r amddifadedd lleiaf.
- Gwelwyd newidiadau mewn ymddygiad gwirfoddoli cyn ac yn ystod pandemig. Parhaodd llawer o'r rhai a oedd eisoes yn wirfoddolwyr gweithgar i wirfoddoli yn ystod y pandemig.
- Estynnodd llawer o wirfoddolwyr gweithgar eu gweithgareddau gwirfoddoli hefyd, ar draws grwpiau ffurfiol ac anffurfiol.
- Roedd yna hefyd wirfoddolwyr gweithgar a gamodd yn ôl yn ystod y pandemig, gan i rai orfod gwarchod eu hunain.
- Roedd tua chwarter y gwirfoddolwyr yn newydd i wirfoddoli, gyda llawer yn parhau i weithio drwy gydol y pandemig yn llawn amser neu'n rhan-amser.




## Summary of key points

- Characteristics of surveyed volunteers during the pandemic included: over three quarters were females, over half were those aged 45-64 years old, over 60% educated to degree level, from the three least deprived quintiles.
- Changes in volunteering behaviour before and during pandemic were observed. Many of those who were already active volunteers, continued during the pandemic.
- Many active volunteers also extended their volunteering activities, across both formal and informal groups.
- There were also active volunteers who stepped back during pandemic, some having to shield.
- About a quarter of the volunteer population was new to volunteering, with many continuing to work throughout the pandemic in full-time or part-time capacity.
- A shift in demographic profile has been noted, with the emerging volunteers being younger than the usual profile.

# Ffactorau a oedd yn galluogi camau gweithredu dan arweiniad / Factors enabling community-led action

- Ffactorau ar lefel unigolion i alluogi i wirfoddolwyr barhau / Individual-level factors to enable volunteers to continue

- Ffactorau ar lefel gymunedol / Community-level factors

- Canfuwyd bod lle yn arbennig / We found that place is particularly important

# Amodau sy'n galluogi camau gweithredu dan arweiniad y gymuned yng Nghymru / Conditions enabling community-led action in Wales

- Deall asedau cymunedol a ffactorau'n ymwneud â lle / Understanding community assets and place factors

- Integreiddio camau gweithredu dan arweiniad y gymuned i'r system ehangach / Integration of community-led action into the wider system

- Galluogi'r amodau sy'n ysgogi tegwch o ran iechyd / Enabling the conditions that drive health equity

# Fframwaith / Framework

**Fframwaith ar gyfer galluogi a chynnal camau gweithredu dan arweiniad y gymuned yn ystod yr ymateb i'r pandemig**

| | | Cyfleoedd i weithredu | |
|---|---|---|---|
| Parodrwydd | 1 | Grymuso/galluogi gwirfoddoli | Nodi sefydliadau a seilwaith i reoli ac ysgogi gwirfoddolwyr |
| | | | Darparu canllawiau i gefnogi camau gweithredu dan arweiniad y gymuned |
| | | | Datblygu fframwaith gweithredu i gefnogi a galluogi cydlynu cyflym ac ymatebol ar draws sectorau |
| | 2 | Mapio anghenion ac asedau | Nodi poblogaethau sydd mewn perygl |
| | | | Mapio cymorth traws-sector lleol a nodi'r blychau |
| | | | Sicrhau bod adnoddau'n yn gynhwysol |
| | | | Addasu'r ymateb i gyrraedd y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol |
| | 3 | Cryfhau rhwydweithiau a phartneriaethau | Adeiladu ar rwydweithiau presennol neu sefydlu rhai newydd |
| | | | Integreiddio cymorth arbenigol ar gyfer ymateb i'r rhai ag anghenion cymhleth |
| | 4 | Lleihau rhwystrau i gamau gweithredu cymunedol | Lleihau rhwystrau i wirfoddoli |
| | | | Galluogi cyfleoedd gwirfoddoli anstrwythuredig |
| | | | Cynnig cymorth i grwpiau dan arweiniad y gymuned er mwyn iddynt gael mynediad at gyllid |
| Yn ystod | 5 | Integreiddio traws-sectoraidd a lleol | Mabwysiadu dull integredig o ddarparu cymorth, sy'n seiliedig ar gydlynu lleol |
| | 6 | Deall ffiniau cyfrifoldebau gwirfoddoli, a chymorth | Cydnabod cyfyngiadau a ffiniau rolau gwirfoddol |
| | | | Camu i'r adwy, lle y dylai cymorth gael ei ddarparu gan wasanaethau craidd |
| | 7 | Galluogi trefniadau llywodraethu | Galluogi i grwpiau cymunedol gael cymorth |
| Adferiad a thu hwnt | 8 | Cynnal camau gweithredu | Harneisio perthnasoedd traws-sector a'u datblygu ymhellach |
| | | | Creu cyfleoedd cefnogol i bobl barhau i gyfranogi |
| | | | Osgoi ffurfioli'r anffurfiol |
| | | | Creu cyfleoedd gwirfoddoli hyblyg |
| | | | Parhau â'r sgwrs am y camau a'r cynlluniau nesaf, wrth i ni symud i'r cyfnod adfer |
| | | | Darparu arweiniad i grwpiau cymunedol ar gyfnodau pontio allweddol |
| | | | Nodi angen parhaus am gymorth a chynllunio tymor hwy |
| | 9 | Buddsoddiad cymunedol | Buddsoddi'n lleol i alluogi sefydliadau angori a hybiau cymunedol i barhau |
| | | | Galluogi grwpiau cymunedol i gael gafael ar gyllid i barhau â'u gweithgareddau |
| | | | Ystyried gweledigaeth strategol tymor hwy ar gyfer camau gweithredu dan arweiniad y gymuned yng Nghymru |
| | | | Cefnogi mentrau cymunedol a ataliodd weithgareddau yn ystod y pandemig i ailaddasu ar y cam ailagor |
| | 10 | Cydnabyddiaeth | Cydnabod gwerth a chyfraniad camau gweithredu dan arweiniad y gymuned |

**A framework for enabling and sustaining community-led action in pandemic response**

| | | Opportunities for action | |
|---|---|---|---|
| Preparedness | 1 | Empower/enable volunteering | Identify organisations & infrastructure to manage and mobilise volunteers |
| | | | Provide guidance to support community-led action |
| | | | Develop an operating framework to support to enable rapid and responsive cross-sector coordination |
| | 2 | Mapping needs & assets | Identify at-risk populations |
| | | | Localised mapping of cross-sector support and identify gaps |
| | | | Ensure resources are inclusive |
| | | | Adapt the response to reach those digitally excluded |
| | 3 | Strengthen networks & partnerships | Build on existing networks or establish new ones |
| | | | Integrate specialist support for responding to those with complex needs |
| | 4 | Reduce barriers to community action | Lower barriers to entry to volunteering |
| | | | Enable unstructured volunteering opportunities |
| | | | Enabling support for accessing funding for community-led groups |
| During | 5 | Cross-sectorial and localised integration | Adopt an integrated approach to support provision, centred around localised coordination |
| | 6 | Understand boundaries of volunteering responsibilities, and support | Recognise limits and boundaries of voluntary roles |
| | | | Step in, where support should be provided by core services |
| | 7 | Enabling governance | Enabling support for community groups |
| Recovery and beyond | 8 | Sustaining action | Harness and build further the cross-sectorial relationships |
| | | | Create supportive opportunities for continued involvement |
| | | | Avoid formalising the informal |
| | | | Create flexible volunteering opportunities |
| | | | Continue conversation about next steps and plans, as we enter recovery |
| | | | Provide guidance to community groups at key transition points |
| | | | Identify on-going need for support and longer-term planning |
| | 9 | Community investment | Invest locally to enable continuity of anchor institutions and community hubs |
| | | | Enable community groups to access funding to continue activities |
| | | | Consider a longer-term strategic vision for community-led action in Wales |
| | | | Support community initiatives that paused activities during the pandemic to re-adapt at re-opening stage |
| | 10 | Acknowledgment | Acknowledge the value and contribution of community-led action |

# Perthnasedd i iechyd y cyhoedd / Relevance to public health

- Wrth adfer o'r pandemig, bydd yn bwysig myfyrio ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon ochr yn ochr â thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar gamau gweithredu ac ymateb cymunedol, er mwyn deall yn well sut i greu amgylchedd galluogol ar gyfer camau gweithredu dan arweiniad y gymuned; grymuso cymunedau ledled Cymru a chynyddu gwirfoddoli lleol a chyfranogiad cymdeithasol, a deall sut y gall cymunedau a phob sector barhau i weithio'n llwyddiannus mewn partneriaeth.

- In recovery from the pandemic, it will be important to reflect on the findings from this study alongside emerging evidence on community-led action and response, to better understand how to create an enabling environment for community-led action; empowering communities across Wales and increasing local volunteerism and social participation, and understanding how communities and all sectors can continue successful partnership-working.

# Diolch

- Charlotte Grey -   Charlotte.Grey2@wales.nhs.uk
- Lucia Homolova  - Lucia.Homolova@wales.nhs.uk




